# Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; Cymraeg (iaith gyntaf); Saesneg; mathemateg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru









## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 173/2015
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015
Yn disodli dogfen wybodaeth rhif: 161/2014

# Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio

**Cynulleidfa**

Ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen; penaethiaid ac athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia rhanbarthol; undebau athrawon a chyrff cynrychiadol; tiwtoriaid mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon; llywodraethwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill yng Nghymru.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen wybodaeth hon yn ategu'r Meysydd Dysgu diwygiedig (Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol) a'r rhaglenni astudio diwygiedig (Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg) o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Bydd yn helpu ysgolion a lleoliadau eraill i ddeall y diwygiadau a chynllunio i'w gweithredu o fis Medi 2015.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Gweithredu'r FfLlRh
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: curriculumdivision@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**

*Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015); *Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015).

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25065 ISBN digidol 978 1 4734 3665 7

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Nodau a nodweddion y diwygiadau** | **3** |
| **Y disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn** | **6** |
| **Hawliau dysgwyr** | **7** |
| **Cyfrifoldebau ysgolion a lleoliadau** | **8** |
| **Cymraeg a Saesneg** | **9** |
| **Dysgwyr y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (CIY/SIY)** | **10** |
| **Dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | **11** |
| **Cyfnod Sylfaen** | **12** |
| **Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3** | **14** |
| **Cyfnod Allweddol 4** | **17** |
| **Trefniadau asesu ar gyfer y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio** | **19** |
| **Dogfennau defnyddiol** | **21** |

# Cyflwyniad

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir a chydlynol ar gyfer addysg yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd.

Ym mis Mawrth 2014, cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Meysydd Dysgu newydd yn ymwneud â Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol; rhaglenni astudio newydd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4 yn ymwneud â Chymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg; a diwygiadau i Ar Drywydd Dysgu. Cafwyd ymgynghoriad hefyd ar ychwanegiadau anstatudol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh).

Y nod oedd cryfhau'r broses o ddysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd yn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio hyn drwy ddefnyddio'r dull a fabwysiadwyd yn y FfLlRh i greu continwwm dysgu. Mae'r FfLlRh yn parhau'n ofyniad statudol ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod gan ddysgwyr sylfaen gadarn mewn Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a fydd yn gwella'r dysgu ar draws y cwricwlwm ehangach.

Ym mis Medi 2015 bydd y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig hyn yn statudol[1] i bob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg.

Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a gellir dod o hyd iddynt ar wefan Dysgu Cymru yn www.llyw.cymru/dysgu.

Cwricwlwm Cymru: diwygio Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio

Awst 2015

Dogfen wybodaeth rhif: 173/2015

[1] Mae'r term 'statudol' yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir a lleoliadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 'Cyfnod Sylfaen' y ddogfen hon.

# Nodau a nodweddion y diwygiadau

Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed newidiadau i gynnwys a dull cyflwyno'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio er mwyn cryfhau a chefnogi'r broses o addysgu llythrennedd a rhifedd. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi cyfleoedd a heriau i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ystyried sut orau i gynllunio a darparu profiadau priodol a pherthnasol sy'n cymell dysgwyr.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod y sgiliau yn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig a'r FfLlRh yn berthnasol i bob dysgwr.


## Nodau

- Diwygio'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio i greu datganiadau disgwyliadau ar sail blwyddyn i flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r sgiliau a fynegwyd yn y FfLlRh ond heb ddyblygu.
- Sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Saesneg Iaith newydd a'r ddau TGAU mathemateg newydd (Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd).
- Cryfhau'r broses o addysgu a dysgu sgiliau tebyg i sgiliau PISA a gydnabyddir yn rhyngwladol fel sgiliau sy'n hanfodol i lwyddo mewn astudiaethau pellach a chyflogaeth.
- Helpu ymarferwyr i sicrhau cynnydd pob dysgwr drwy ddarparu continwwm datblygiad i'r camau nesaf.
- Sicrhau parhad â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008.

## Nodweddion

- Nid oes cynnwys newydd sylweddol.
- Mae cydrannau llythrennedd a rhifedd y FfLlRh wedi'u cynnwys fel rhan o'r Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol, ac fel rhan o'r rhaglenni astudio Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg.

- Mae’r rhaglenni astudio Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg wedi’u rhannu’n ddwy adran benodol, sef:
  - Ystod o brofiadau (i’w cwmpasu mewn cyfnod allweddol cyfan)
  - y disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn mewn perthynas â llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y FfLlRh a’r rhaglenni astudio.


Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Darllen

Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig fel sail i’w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai’r rhain gynnwys:
  - testunau cyflawn a detholiadau
  - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
  - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
  - nofelau graffig a llyfrau llun
  - drama, gan gynwys perfformiadau drama
  - testunau sy’n ymwneud â phynciau heriol sy’n ehangu
  - testunau sy’n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol
  - testunau sy’n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, p
  - testunau sy’n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ie
  - testunau sy’n adlewyrchu dewis darllen personol dysg
  - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymde
  - testunau sy’n amrywio o ran tôn, *e.e. testunau sy’n lla*
  - testunau sy’n cynnig her
  - testunau sy’n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, *e.e. darllen mewn par*
- darllen at ddibenion gwahanol, *e.e. er mwynhad persono drwy ail-ddarllen, i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir g*
- datblygu’r iaith a’r derminoleg briodol i allu trafod, ystyrie

**Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfo**

Mae’r Rhaglenni Astudio Cymraeg a’r Saesneg wedi eu datbly

**Allwedd**

O fewn y tabl, bydd testun o’r FfLlRh yn ymddangos fel tes yr eicon hwn.

**Sgil rhaglen astudio** ❖ Mae’r sgiliau hyn, ar y cyd

**D.S.**

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Darllen

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 3<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 4<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 5<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 6<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun | defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun | defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun | defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun |
| | | darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio | darllen testunau gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio | darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson | darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson |
| | | **gyda chymorth, dechrau adnabod a deall rhai nodweddion sylfaenol mewn testunau di-dor a phytiog o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, *e.e. strwythur stori, cynllun llythyr*** ❖ | **gyda chymorth, deall ac adnabod nodweddion testunau di-dor a phytiog o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, *e.e. cyflwyniad sgript, cyflwyniad erthygl papur newydd*** ❖ | **deall ac adnabod nodweddion mewn ystod gynyddol o destunau (di-dor a phytiog) o ran iaith, strwythur a chyflwyniad, *e.e. iaith dyddiadur personol, yr iaith a ddefnyddir mewn araith*** ❖ | **yn hyderus, deall ac adnabod nodweddion ystod o destunau gwahanol (di-dor a phytiog) o ran iaith, strwythur, thema a chyflwyniad** ❖ |
| | | darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu’r mynegiant | defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr | adnabod sut mae atalnodi’n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth | deall sut gall atalnodi amrywio gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, *e.e. Ces i gacen(,) siocled a chaws i de* |
| | | cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg ar destun, *e.e. pwnc, pwrpas* | cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu’r prif syniad mewn pennod | defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), *e.e. dod o hyd i’r geiriau neu’r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu* | defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, *e.e. cip ddarllen (sgimio) am gynnwys bras, llithr ddarllen (sganio) am fanylion* |
| | | chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron | llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau, *e.e. teitlau, darluniau, geiriau allweddol* | | |
| | | defnyddio cliwiau gweledol, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau,* er mwyn gwella dealltwriaeth | | | |

- Mae’r Meysydd Dysgu a’r rhaglenni astudio yn cwmpasu datganiadau’r FfLlRh. O ran fformatio, yr ydym wedi gwahaniaethu’r datganiadau sydd yn berthnasol i’r FfLlRh a ellir gael eu gosod mewn cyd-destun ar draws y cwricwlwm.
- Mae modd adnabod testun y Meysydd Dysgu a’r rhaglenni astudio ymhellach o’r eiconau canlynol:
  - Sgil estynedig ▲ – mae hwn yn sgil y FfLlRh sydd wedi’i ymestyn i greu sgil Maes Dysgu/rhaglen astudio

**Allwedd**

O fewn y tabl, bydd testun o’r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd testun o’r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil benodol i’r Rhaglen Astudio Mathemateg yn cael ei ddynodi gan brint trwm
Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig** ▲ **Sgil rhaglen astudio** ❖ Mae’r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau’r FfLlRh, yn ffurfio’r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Mathemateg.

**D.S.**

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i’w hargraffu ar faint A3.

- Sgil Maes Dysgu/rhaglen astudio ❖ – mae’r sgiliau hyn, wedi’u cyfuno gyda’r FfLlRh, yn creu’r Maes Dysgu/rhaglen astudio.

- Mae’r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn dilyn yr un fformat â’r Meysydd Dysgu, a chafwyd ymateb cadarnhaol i hyn yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae’r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn dilyn fformat wahanol.
  - Byddai dilyn strwythur y Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol wedi creu llinellau cynnydd datgymalog ac aneglur o fewn y rhaglen astudio a chulhau’r canfyddiad o’r ffordd y gall sgiliau gael eu gosod a’u datblygu. Er enghraifft, hyd yn oed yng Nghyfnod Allweddol 2, mae rhai sgiliau yn tynnu ar fwy nag un sgil mewn blynyddoedd blaenorol, neu’n hollti i mewn i amryw o sgiliau newydd. Gwelsom hefyd bod datganiadau ac elfennau sgiliau yn aml yn ‘ymddangos’ neu’n ‘diflannu’, ac o ganlyniad yn arwain at nifer o gelloedd gwag.
  - I alluogi ymarferwyr i weld llinellau cynnydd mewn fformat gyfarwydd, heb greu problemau strwythurol, mae’r fformat cell wrth gell ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn parhau tra mae’r rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 i 4, yn dilyn dull arddull y FfLlRh.

**Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Mathemateg**

<table>
<tr><th>Llinynnau</th><th>Elfennau</th><th>Blwyddyn 3<br>Mae dysgwyr yn gallu:</th><th>Blwyddyn 4<br>Mae dysgwyr yn gallu:</th><th>Blwyddyn 5<br>Mae dysgwyr yn gallu:</th><th>Blwyddyn 6<br>Mae dysgwyr yn gallu:</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Datblygu ymresymu rhifyddol</td><td>Adnabod prosesau a chysylltiadau</td><td colspan="4">• trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd<br>• adnabod y camau a’r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau’r dasg neu gyrraedd datrysiad<br>• dewis mathemateg a thechneg briodol i’w defnyddio<br>• dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas<br>• dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae’n briodol defnyddio cyfrifiannell<br>• amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio’r unedau cywir</td></tr>
<tr><td>Cynrychioli a chyfathrebu</td><td colspan="4">• egluro canlyniadau a gweithdrefnau’n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol<br>• mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny<br>• defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol<br>• dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas<br>• adnabod, a chyffredinoli mewn geiriau, patrymau sy’n codi mewn sefyllfaoedd rhifiadol, gofodol neu ymarferol ❖<br>• dychmygu a disgrifio siapiau, symudiadau a thrawsffurfiadau ❖</td></tr>
<tr><td>Adolygu</td><td colspan="4">• dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol<br>• dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw’r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol<br>• defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydnabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu’n ansicr</td></tr>
</table>

# Y disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn

Mae'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio wedi'u cynllunio fel continwwm dysgu er mwyn i ymarferwyr allu asesu sefyllfa bresennol dysgwr a beth yw'r camau nesaf. Nid ydynt yn gyfres o sgiliau gwahanol i'w dysgu a'u dangos bob blwyddyn o 3 i 16 oed.
Nid yw'n ddigon bod y dysgwr wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r sgil ar un achlysur a bod hyn yn cael ei gofnodi ar restr dicio.
Mae'r continwwm yn helpu ymarferwyr/athrawon i nodi cryfderau unigol ac anghenion dysgu ar gyfer y dyfodol. Dylai dysgwyr allu ymarfer a dangos eu sgiliau mewn ystod o gyd-destunau cyn symud ymlaen i'w cam nesaf, a sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu cynnal.

## Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

## Llinyn: Llafaredd

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 3<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 4<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 5<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 6<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol | esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, e.e. *deunyddiau ar sgrin ac ar y we* | esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. *defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol* | mynegi materion a syniadau'n eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau |
| | | trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, e.e. *pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn* | trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. *rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau* | siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. *digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr* | siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr |
| | | siarad yn eglur gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr | addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, e.e. *defnyddio ti/chi* | | |
| | | defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. *yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)* | | | |
| | | cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl | archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl | archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl | archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae |
| | | **dechrau defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖** | **datblygu eu gallu i ddefnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖** | **deall pryd mae angen defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol ❖** | **defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖** |
| | | **datblygu eu gallu i ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖** | **defnyddio a dangos rhywfaint o afael ar batrymau cystrawennol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖** | **datblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖** | **defnyddio a dangos gafael ar ystod eang o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa yn gywir (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖** |
| | | **dechrau meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. dechrau defnyddio ffurfiau safonol berfau sy'n berthnasol i'r cyd-destun a'u rhedeg, rhedeg rhai arddodiaid a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad* ❖** | **meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg (ffurfiau presennol, gorffennol a negyddol), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau* ❖** | **datblygu eu gallu i feithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio ffurfiau safonol amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio cenedl enwau a rhedeg arddodiaid* ❖** | **meithrin cywirdeb ar lafar, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio'r amodol a negyddu brawddegau'n gywir, rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau* ❖** |

# Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion a lleoliadau yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn aelodau llawn o'u cymunedau ehangach, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a'r holl weithgareddau gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai ysgolion/lleoliadau addysgu mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu i ehangu eu dysgu. Dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion/lleoliadau ddefnyddio datganiadau disgwyliad o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol neu ddiweddarach. Dylai ysgolion/lleoliadau ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Yn achos dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sylweddol is na'r datganiadau disgwyliadau, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn. Dylent addasu'r dulliau addysgu a/neu'r adnoddau ar gyfer y rhaglenni astudio yn unol â hynny, a sicrhau mynediad llawn lle bynnag y bo'n briodol i'r ystod o brofiadau a ddisgrifir yn y cyfnod/cyfnod allweddol. Mae digon o hyblygrwydd ar gael i fodloni anghenion dysgwyr heb fod angen eu datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, a hynny dros dro fel arfer, ond ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

I gwmpasu cynnwys yr holl Feysydd Dysgu a rhaglenni astudio ar gyfer pob cyfnod/cyfnod allweddol, a bodloni'r gofyniad i ddarparu cwricwlwm cytbwys ac eang, gall ysgolion ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm ehangach fel cyd-destun ar gyfer dysgu.

Yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion/lleoliadau roi mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunydd mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol.

Dylai ysgolion/lleoliadau ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr ac yn eu datblygu ymhellach
- cefnogi polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft drwy integreiddio dimensiwn/safbwynt Cymreig lle y bo'n ystyrlon ac yn berthnasol.

# Cyfrifoldebau ysgolion a lleoliadau

Mae'r adran hon yn egluro cyfrifoldebau ysgolion/lleoliadau mewn perthynas â phob dysgwr yng Nghymru. O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau* (2004), rhaid i bob plentyn a pherson ifanc gael addysg sy'n datblygu eu personoliaethau a'u doniau'n llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau'r ddyletswydd ar ysgolion a lleoliadau i ddiogelu a hybu lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal, sy'n cwmpasu oed, anabledd, rhyw, hil, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol, hefyd yn rhoi dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau yng Nghymru mewn perthynas â dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob rhan o fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion a lleoliadau geisio datblygu dealltwriaeth pob dysgwr o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ac ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol a phersonol sy'n derbyn ac yn parchu eraill. Dylai'r gwaith cynllunio ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi pob dysgwr i gymryd rhan yn ein cymdeithas aml-ethnig yng Nghymru. Yn ogystal, dylai ysgolion a lleoliadau ddatblygu dulliau gweithio sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cynnwys dysgwyr a'u paratoi ar gyfer bywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion a lleoliadau weithio i leihau'r rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a chynnig cyfleoedd i bob dysgwr gyflawni eu potensial llawn wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen iddynt gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau dysgu perthnasol a hygyrch.

I ddysgwyr ag anableddau yn benodol, dylai ysgolion/lleoliadau:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion a lleoliadau geisio cyngor ynghylch addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod pob dysgwr yn cyfranogi'n llawn, gan gynnwys y rheini sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw iaith lafar.

# Cymraeg a Saesneg

Mae'r Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf)[2] a Saesneg wedi'u datblygu ochr yn ochr â'i gilydd gan gymryd i ystyriaeth agweddau sy'n benodol i'r ddwy iaith. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu llythrennedd deuol ac yn rhoi sylfaen i ddysgu ieithoedd ychwanegol, gan gynnwys ieithoedd tramor modern, yn yr ysgol ac mewn dysgu gydol oes. Mae datganiad wedi'i gynnwys yn y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ac yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn amlinellu y dylai dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio sgiliau trawsieithu. Mae cyfryngu rhwng cynulleidfaoedd gwahanol a chyfleu cynnwys a neges gyffredinol deunydd sy'n bodoli mewn un iaith i iaith arall yn sgiliau pwysig ar gyfer dysgwyr mewn cymdeithas ddwyieithog.

Bydd gofyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysgu'r rhaglenni astudio newydd ar gyfer y Gymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg. Bydd gan ysgolion Saesneg dwy raglen astudio newydd i'w hystyried o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen (Saesneg a mathemateg).



[2] Cafodd y gydran cyfrwng Cymraeg llythrennedd o'r FfLlRh ei chynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg. Bydd yr Athro Donaldson, yn ei adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn ystyried y ddarpariaeth yn ymwneud â Chymraeg ail iaith a'r argymhellion pwysig a wnaed yn yr adroddiad gorchwyl a gorffen annibynnol ar Gymraeg ail iaith a arweiniwyd gan yr Athro Sioned Davies.

## Dysgwyr y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (CIY/SIY)

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gan ddysgwyr y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (CIY/SIY) heriau gwahanol mewn perthynas â chaffael iaith a llythrennedd. Efallai bod y dysgwyr CIY/SIY yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg/Saesneg am y tro cyntaf ac felly bydd angen cymorth ychwanegol penodol i'w helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd priodol. Dylid darparu deunydd sy'n briodol i'w gallu, eu haddysg flaenorol a'u profiad, ac sy'n ehangu eu datblygiad ieithyddol. Mae'r ffaith bod y datganiadau disgwyliadau yn asesu cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn golygu bod ysgolion a lleoliadau yn gallu sicrhau eu bod yn ymgorffori'r sgiliau priodol wrth ddarparu'r cwricwlwm.

# Dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Bydd athrawon dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rheini ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn defnyddio'r datganiadau o'r FfLlRh a'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio newydd i nodi cynnydd priodol a sicrhau bod gan ddysgwyr gymorth o ansawdd uchel i ddatblygu eu sgiliau. Yn yr un modd, yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefel uwch, dylai ysgolion/lleoliadau ystyried y continwwm dysgu drwy'r Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio ynghyd â'r graddau y mae'r dysgwyr yn dangos sgiliau'n annibynnol, er mwyn rhoi mwy o her iddynt.

Lle bo'n briodol, gellir nodi datblygiad plant ag anghenion addysgol arbennig mwy cymhleth o'r cam cynharaf yn Ar Drywydd Dysgu. Wedyn, mae'r FfLlRh yn amlinellu sut y caiff sgiliau eu mireinio a'u datblygu wrth iddynt symud ymlaen drwy gamau ABC Ar Drywydd Dysgu tuag at y datganiadau disgwyliadau newydd ar gyfer plant oedran meithrin a thu hwnt.

Mae'r adran 'Ystod o brofiadau' yn Ar Drywydd Dysgu/Meysydd Dysgu/rhaglenni astudio yn nodi disgwyliadau clir o ran y cynnwys a'r cyd-destun lle caiff sgiliau eu datblygu. Lle bynnag y bo modd, dylai pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr sydd ag ADY, gael cyfle i fanteisio ar y cynnwys/cyd-destun o'r ystod o brofiadau sy'n addas i'w hanghenion.

# Cyfnod Sylfaen

## Newidiadau i'r Meysydd Dysgu a'r FfLlRh yn y Cyfnod Sylfaen

- Caiff y Meysydd Dysgu eu cyflwyno bellach ar ffurf disgwyliadau grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod plant bellach yn cael eu haddysgu yn ôl eu hoedran. Mae'r pwyslais yn parhau ar ddarpariaeth sy'n briodol i'r cyfnod yn y Cyfnod Sylfaen.
- Mae'r elfennau 'Siarad' a 'Gwrando' yn y Maes Dysgu blaenorol wedi'u diwygio i greu llinyn newydd – llafaredd.
- Mae FfLlRh wedi'i ychwanegu ar gyfer plant meithrin[3].
- Caiff addysgeg, ystod o brofiadau a sgiliau'r Cyfnod Sylfaen eu disgrifio ym mhob Maes Dysgu.

## Trosolwg o'r diwygiadau

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod gan bob plentyn y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau posibl drwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm priodol hwn yn galluogi dysgwyr ifanc i ddatblygu'r sgiliau cynnar a'r wybodaeth gynnar sydd eu hangen arnynt i ddod yn ddysgwyr gydol oes. Rhaid i'r saith Maes Dysgu (chwech mewn ysgolion/lleoliadau cyfrwng Cymraeg) ategu ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd i greu cwricwlwm perthnasol ac ymarferol. Ni ddylid eu trin ar wahân. Mae'r FfLlRh a'i natur drawsgwricwlaidd yn hyrwyddo ac yn cefnogi egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r FfLlRh a'r Meysydd Dysgu diwygiedig yn galw am newid mewn addysgeg, ond maent yn egluro beth ddylai fod yn wir am gynnydd dysgwyr, a'r ystod o brofiadau y dylid eu cynnwys.

Nid yw'r Meysydd Dysgu diwygiedig a'r cyflwyniad i'r FfLlRh yn golygu dychwelyd i'r arfer o addysgu llythrennedd a rhifedd i'r dosbarth cyfan yn y Cyfnod Sylfaen. Caiff ymarferwyr eu hannog i gefnogi datblygiad sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu plant, a'u datblygiad mathemategol, drwy gynnig darpariaeth gytbwys o brofiadau dysgu gweithredol a phrofiadau dysgu drwy chwarae a arweinir gan y plentyn a'r oedolyn, a hefyd drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd dysgu a gynlluniwyd a chyfleoedd dysgu ar hap. I atgyfnerthu hyn, rydym wedi cynnwys ystod o ddatganiadau diwygiedig ar gyfer addysgeg y Cyfnod Sylfaen ar ddechrau pob Maes Dysgu.

[3] Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn statudol ar gyfer ysgolion/lleoliadau a gynhelir ac ysgolion/lleoliadau nas cynhelir sy'n cael eu hariannu gan eu hawdurdod lleol i ddarparu addysg. Fel rhan o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen, bydd y FfLlRh yn statudol ar gyfer yr ysgolion/lleoliadau hyn am ei fod yn rhan o'r gofyniad i gefnogi cynnydd plant tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r FfLlRh yn anstatudol ar gyfer ysgolion/lleoliadau nad ydynt yn cael eu hariannu.

Mae'r FfLlRh wedi'i ehangu i ddarparu cymorth ar gyfer darparu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar i blant meithrin. I sicrhau sylfaen gref ar gyfer darllen ac ysgrifennu, canolbwyntir ar ddatblygu geirfa, llafaredd a sgiliau iaith. Mae'r sgiliau rhifedd yn adlewyrchu datblygiad cysyniadau rhif ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf. Nid yw datganiadau disgwyliadau Ar Drywydd Dysgu yn addas fel sgiliau cynharaf cyffredinol ar gyfer plant cyn ysgol a meithrin.

Mae'r llinynnau sgiliau a amlinellir yn y Meysydd Dysgu diwygiedig wedi'u llunio gan ddefnyddio'r FfLlRh a sgiliau'r Meysydd Dysgu fel y nodwyd yn *Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (2008). Nid oes cynnwys newydd. Cyhoeddwyd fframwaith diwygiedig ar gyfer 2015 yn ddiweddar – *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* – sy'n disodli'r fframwaith 2008. Mae'r fframwaith diwygiedig yn ymgorffori'r FfLlRh yn y Meysydd Dysgu statudol. Cydnabyddir y gallai plant yn y Cyfnod Sylfaen fod yn cyflawni'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ac felly dylai'r broses gynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn adlewyrchu eu cam datblygu, gan symud yn raddol o fewn a thrwy'r elfennau. Lle'n briodol, gallai fod angen i blant mwy galluog a thalentog ddefnyddio rhaglenni astudio Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a mathemateg.

Bydd canllawiau diwygiedig ar y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cyhoeddi maes o law i ategu'r broses o weithredu'r Meysydd Dysgu.

# Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3

## Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg

Mae'r sgiliau ar gyfer y rhaglenni astudio'n ymwneud â Chymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn union yr un peth ar wahân i rai gwahaniaethau amlwg sy'n cymryd i ystyriaeth agweddau sy'n benodol i bob iaith. Er enghraifft, mae agweddau gramadegol megis treiglo neu redeg arddodiaid wedi'u cynnwys yn y rhaglen astudio ar gyfer y Gymraeg (iaith gyntaf), ac mae Shakespeare wedi'i gynnwys fel testun yn y rhaglen astudio ar gyfer Saesneg.

Caiff y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg eu rhannu'n ddwy adran:

- Ystod o brofiadau
- Sgiliau.

### Trosolwg o'r diwygiadau

I godi safonau llythrennedd roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen ymgorffori'r fframwaith presennol ar gyfer datblygu llythrennedd, sef y FfLlRh, yn y rhaglenni astudio diwygiedig er mwyn sicrhau dealltwriaeth a pharhad. Ochr yn ochr â'r datganiadau hyn, ceir sgiliau sy'n benodol i'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg mewn fformat tebyg lle asesir cynnydd o un flwyddyn i'r llall.

Mae'r adran 'Ystod o brofiadau' yn drosolwg o gyfleoedd dysgu sy'n cwmpasu cyfnod allweddol cyfan ac yn amlinellu'r cynnwys ar gyfer dysgwyr. Fe'i chynlluniwyd i gynnig hyblygrwydd i athrawon ddewis pynciau a dulliau addysgu creadigol sy'n briodol i'w dysgwyr. Bydd sgiliau mewn Cymraeg (iaith gyntaf)/Saesneg yn cael eu hymarfer a'u datblygu o fewn y profiadau hyn. Maent wedi'u llunio fel continwwm dysgu er mwyn sicrhau bod pob rhaglen astudio'n paratoi dysgwyr ar gyfer y cyfnod allweddol dilynol. Mae'r adrannau 'Ystod o brofiadau' a 'Sgiliau' wedi'u rhannu'n llinynnau llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Mae datganiad wedi'i gynnwys yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn nodi y dylai dysgwyr gael eu hannog i ddefnyddio sgiliau trawsieithu.

## Mathemateg

Mae'r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg o Gyfnodau Allweddol 2 i 4 yn cynnwys y sgiliau a ddisgwylir ym mhob grŵp blwyddyn.

### Trosolwg o'r diwygiadau

Lluniwyd y rhaglen astudio mathemateg i ategu'r disgwyliadau rhifiadol a amlinellir yn y FfLlRh.

Mae disgwyl i ddysgwyr mathemateg a rhifedd ddysgu gwneud y canlynol i lefel uchel.

- Datblygu ymresymu rhifyddol.
- Defnyddio sgiliau rhif.
- Defnyddio sgiliau mesur.
- Defnyddio sgiliau data.

Mae'r rhaglen astudio mathemateg hefyd yn datblygu sgiliau dysgwyr mewn dau linyn arall.

- Defnyddio sgiliau geometreg.
- Defnyddio sgiliau algebra.

Mae 'Tebygolrwydd' yn elfen ychwanegol o dan 'Defnyddio sgiliau data'.

Fe'i gwneir yn glir lle nad yw datganiadau disgwyliadau yn rhan o'r FfLlRh ac sydd ond yn rhan o raglen astudio mathemateg. Mae'r holl ddatganiadau eraill yn rhan o'r FfLlRh a'r rhaglen astudio mathemateg. Mewn rhai achosion, bydd datganiad yn cynnwys geiriau nad ydynt yn rhan o'r FfLlRh. Gwneir hyn i bwysleisio elfen fathemategol o ddatganiad rhifedd, ac i hybu dealltwriaeth gyfannol o fathemateg.

Mae'r llinyn 'Defnyddio sgiliau algebra' ym mhob cyfnod allweddol. Nid ychwanegu cynnwys yw'r bwriad ond adlewyrchu'r arferion da sy'n amlwg mewn llawer o ysgolion a helpu dysgwyr i ddatblygu eu geirfa fathemategol a'u sgiliau algebra. Yng ngoleuni canfyddiadau'r ymgynghoriad *Cwricwlwm Cymru: Cam 1: Llythrennedd a Rhifedd,* nid oes cynnwys ychwanegol ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9. Mae'r llinyn 'Datblygu ymresymu rhifyddol' yn amlinellu'r disgwyliad bod ysgolion yn caniatáu i ddysgwyr archwilio cysyniadau mathemategol a sgiliau mathemategol mewn nifer o gyd-destunau ystyrlon.

Mae’r elfen ‘Patrwm’ yn y Cyfnod Sylfaen wedi ei leoli o fewn y llinyn ‘Defnyddio sgiliau data’. Mae llawer o’r sgiliau o fewn yr elfen hon yn rhagflaenwyr sgiliau eraill gan gynnwys y rheini sydd o fewn ‘Defnyddio sgiliau algebra’ yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, gan eu bod yn cefnogi datblygiad y gallu i adnabod rheolau a gwneud rhagfynegiadau. Mae’r dull yma yn cefnogi’r rhesymeg y tu cefn i’r gwahanol fformat sy’n bodoli rhwng Maes Dysgu Datblygiad Mathemategol y Cyfnod Sylfaen a rhaglenni astudio Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ar gyfer mathemateg.

# Cyfnod Allweddol 4

## Cyffredinol

I sicrhau continwwm o ddatblygiad o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 a chymwysterau, mae'r FfLlRh wedi'i ehangu i Gyfnod Allweddol 4. Er bod y pynciau'n amrywio yng Nghyfnod Allweddol 4, byddem yn disgwyl i sgiliau llythrennedd a rhifedd barhau i gael blaenoriaeth a chael eu datblygu'n briodol ym mhob pwnc, lle bo'n briodol.

Er bod y FfLlRh estynedig yn anstatudol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm, maent yn statudol yn Rhaglenni Astudio Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a Mathemateg am fod y Gorchmynion hyn yn statudol yng Nghyfnod Allweddol 4.

## Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg

Mae'r rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf)/Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhaglenni astudio ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Er enghraifft, mae datganiad wedi'i gynnwys yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn nodi y dylid annog dysgwyr i ddefnyddio sgiliau trawsieithu.

Mae sgiliau llythrennedd y FfLlRh wedi'u hehangu i Gyfnod Allweddol 4. Bydd y sgiliau hyn, ynghyd â sgiliau rhaglenni astudio Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn rhan o'r gofyniad statudol newydd yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg.

Mae'r adrannau 'Ystod o brofiadau' a 'Sgiliau' yn adlewyrchu'r gofynion o ran cynnwys ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd mewn Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith a'r cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg. Bydd y TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Saesneg Iaith yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau gweithredol ar iaith. Dylid ystyried y term 'gweithredol' yn nhermau darparu i ddysgwyr y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen arnynt i chwarae rôl weithredol a chyfrifol yn eu cymunedau, mewn bywyd bob dydd, yn y gweithle ac mewn lleoliadau addysgol. Mae'r golofn 'Ymestyn' y tu hwnt i Flwyddyn 11 yn dynodi'r deilliannau a ddisgwylir gan ddysgwyr uwch yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd y cymwysterau TGAU newydd hyn yn cael eu cyflwyno i'w haddysgu am y tro cyntaf yn 2015.

Mae rhaglenni astudio Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yn cynnwys profiadau a sgiliau iaith **a** llenyddiaeth, ac mae'n ofyniad statudol i ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn dilyn rhaglen astudio gyfan Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith) a Saesneg i gael cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae'r adrannau 'Ystod o brofiadau' a 'Sgiliau' wedi'u rhannu'n dargedau cyrhaeddiad llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Caiff y sgiliau yn y rhaglenni astudio newydd ar gyfer Cymraeg (iaith gyntaf) a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 4 eu cyflwyno fel disgwyliadau o un flwyddyn i'r llall.

## Mathemateg

Mae'r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn yr un egwyddorion â'r rhaglenni astudio yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

Mae'r rhaglen astudio ddiwygiedig ar gyfer mathemateg yn gyson â'r TGAU newydd mewn mathemateg (Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd). Caiff y cymwysterau TGAU newydd hyn eu cyflwyno i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2015.

Mae rhaglen astudio Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer mathemateg yn ofyniad statudol i ysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn y rhaglen astudio gyfan ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4 i gael cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae'r golofn 'Ymestyn' a nodwyd eisoes yng nghydran rhifedd y FfLlRh yn amlinellu dulliau naturiol o ehangu rhai o sgiliau rhifedd Blwyddyn 9. Fel y nodwyd eisoes, ni ellir datblygu pob sgil o ran rhifedd heb i'r peth fynd yn gwbl fathemategol. Dim ond mewn perthynas â'r sgiliau rhifedd y gellir eu datblygu'n bwrpasol mewn cyd-destun ystyrlon o fewn y pynciau craidd ym Mlynyddoedd 10 ac 11 y caiff cyfnod y FfLlRh ei ymestyn i gynnwys y blynyddoedd hynny.

Mae'r golofn 'Ymestyn' y tu hwnt i Flwyddyn 11 yn dynodi'r deilliannau a ddisgwylir gan ddysgwyr uwch yng Nghyfnod Allweddol 4.

# Trefniadau asesu yn erbyn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio

Mae adroddiad yr Athro Donaldson, sef *Dyfodol Llwyddiannus*, yn cyflwyno argymhellion arwyddocaol a phellgyrhaeddol ynghylch y system asesu ac atebolrwydd yng Nghymru. Bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddatblygu a chyflawni'r argymhellion hyn. Yn y cyfamser, at ddiben monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr, atebolrwydd a mesuriadau perfformiad, mae'n hanfodol fod trefniadau asesu yn eu lle yn erbyn y Meysydd Dysgu a'r rhaglenni astudio diwygiedig y bydd sail statudol iddynt o fis Medi 2015.

At ddiben asesu, ac er mwyn achosi cyn lleied â phosibl o aflonyddwch, bydd y system bresennol o ddefnyddio'r asesiadau diwedd cyfnod/cyfnod allweddol yn parhau.

## Ar Drywydd Dysgu

Gall deunyddiau Ar Drywydd Dysgu gael eu defnyddio ar gyfer olrhain a chefnogi cynnydd parhaus dysgwyr sydd ag anghenion dysgu cymhleth.

## Cyfnod Sylfaen

O safbwynt y Cyfnod Sylfaen, mae disgrifiadau'r deilliannau yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cynyddol sydd ynghlwm wrth y Meysydd Dysgu diwygiedig.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau bod eu disgwyliadau o ran eu plant yn cyd-fynd yn fwy â'r disgwyliadau cynyddol o fewn y FfLlRh a'r Meysydd Dysgu diwygiedig. Bydd hyn yn eu paratoi'n well ar gyfer profiadau diweddarach yn yr ysgol.

Eto i gyd, ni fydd disgwyl i blant gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig ar ddiwedd y cyfnod hyd **haf 2018**. Golyga hyn mai'r cohort o blant a fydd yn dechrau yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 fydd y plant cyntaf i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau diwygiedig. Bydd y trefniadau presennol o ran atebolrwydd yn parhau tan hynny.

Bydd Proffil y Cyfnod Sylfaen yn ategu hyn. Adnodd asesu drwy arsylwi yw'r proffil sy'n cefnogi asesiadau cyfunol o blant drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir y proffil i gynnal asesiad sylfaenol statudol o 2015 ymlaen. Cynhelir hwn yn ystod chwe wythnos gyntaf blwyddyn Dderbyn y plentyn, neu Flwyddyn 1 os na fydd y plentyn wedi mynd i'r flwyddyn Dderbyn.

Mae'r sgiliau yn y proffil yn cyd-fynd â'r rheini yn y FfLlRh (o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2) felly gellir defnyddio'r proffil i gefnogi adrodd yn flynyddol a chamau nesaf mewn llythrennedd a rhifedd gan ddefnyddio'r FfLlRh. Gellir defnyddio'r proffil hefyd i gefnogi asesiadau diwedd y cyfnod (diwedd Blwyddyn 2) o haf 2018.

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/foundation-phase-profile/?skip=1&lang=cy.

## Cyfnodau Allweddol 2 a 3

O safbwynt Cyfnodau Allweddol 2 a 3, bydd yn ofynnol i athrawon asesu cynnydd dysgwyr yn erbyn lefelau presennol y cwricwlwm cenedlaethol.

Bydd canllawiau yn cael eu rhoi i ysgolion i sicrhau bod eu disgwyliadau ar gyfer dysgwyr yn fwy cydnaws â'r disgwyliadau uwch sydd yn y FfLlRh a'r rhaglenni astudio sydd wedi'u diwygio, er mwyn paratoi dysgwyr yn well ar gyfer TGAU a'r byd gwaith. Ystyr hyn yn fwy penodol yw bod y disgwyliad wedi newid i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gyflawni Lefel 5, yn hytrach na Lefel 4 fel y disgwylir ar hyn o bryd, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a'r disgwyliad yw bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni Lefel 6, yn hytrach na Lefel 5 fel y disgwylir ar hyn o bryd, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3.

Bydd y disgwyliadau uwch hyn yn cael eu mesur i ddylanwadu ar y broses gategoreiddio ysgolion am y tro cyntaf yn haf 2018. Felly, o 2018 ymlaen, byddwn yn defnyddio mesur data Lefel 5 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a mesur data Lefel 6 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Bydd y trefniadau atebolrwydd presennol yn gymwys tan hynny.

# Dogfennau defnyddiol

## Llywodraeth Cymru

*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (2013)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-cy.pdf

*Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* (2013)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124curriculumplanningguidancecy.pdf

*Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm: Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol* (2013)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130124supplementarycurriculumguidancecy.pdf

*Asesu, cofnodi ac adrodd yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (2014)
www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140710-assessment-recording-reporting-using-the-lnf-cy.pdf

*Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015)
learning.gov.wales/resources/browse-all/foundation-phase-framework/?lang=cy

*Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015)
learning.gov.wales/resources/browse-all/welshnc/?lang=cy

*Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015)
learning.gov.wales/resources/browse-all/englishnc/?lang=cy

*Cwricwlwm Cymru: Rhaglen Astudio ar gyfer mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2–4* (2015)
learning.gov.wales/resources/browse-all/mathsnc/?lang=cy

*Cwricwlwm Cymru: Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio diwygiedig – Cwestiynau cyffredin* (2014)
www.learning.wales.gov.uk/resources/browse-all/revised-areas-of-learning-and-programmes-of-study-faq/?skip=1&lang=cy

**Deunyddiau enghreifftiol ar gyfer disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3**

Mae'r deunyddiau'n cyflwyno negeseuon allweddol i ymarferwyr ynghylch cynllunio, addysgu, dysgu a chynnydd ar draws holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Maent yn cynnwys proffiliau o waith dysgwyr sy'n dangos y safonau a bennir yn nisgrifiadau'r lefel ac yn dangos sut y dylid defnyddio disgrifiadau'r lefelau i wneud barn cyd-fynd orau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

- *Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008) www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/111026welshfirstlanguagecy.pdf
- *English: Guidance for Key Stages 2 and 3* (English only) (2008) www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130508-english-guidence-en.pdf
- *Mathemateg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (2008) www.learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/0901mathguidancecy.pdf

*Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen* (2010) www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/1504015-guidance-on-teaching-higher-order-readingskills-cy.pdf

*Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (2010) www.learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/100426higherorderlitcy.pdf

## Estyn

*Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3* (2014) www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/314577.9/Saesneg%20yng%20nghyfnodau%20allweddol%202%20a%203%20-%20Mehefin%202014/?navmap=30,163,

*Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir* (2013) www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/296150.4/Cymraeg%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen:%20Datblygu%20Cymraeg%20fel%20iaith%20gyntaf%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20a'r%20sector%20nas%20cynhelir/?navmap=30,163

*Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin* (2013) www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/283101/Rhifedd%20yng%20nghyfnodau%20allweddol%202%20a%203:%20astudiaeth%20gwaelodlin%20-%20Mehefin%202013/?navmap=30,163

*Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3* (2015)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/348484.5/Arfer%20dda%20mewn%20mathemateg%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20-%20Chwefror%202015/?navmap=30,163

*Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4* (2013)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/291891.6/Arfer%20dda%20mewn%20mathemateg%20yng%20nghyfnod%20allweddol%204%20-%20Hydref%202013/?navmap=30,163

*Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen* (2013)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/264810/Datblygu'r%20Gymraeg%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20Ionawr%202013/?navmap=30,163

*Adroddiadau thematig Estyn: Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 7 oed* (2009)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/177559.2/Arfer%20orau%20mewn%20mathemateg%20ar%20gyfer%20disgyblion%20rhwng%203%20a%207%20oed%20-%20Mehefin%202009/?navmap=30,163

*Adroddiadau thematig Estyn: Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed* (2009)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/172208.4/Arfer%20orau%20mewn%20darllen%20ac%20ymhlith%20ysgrifennu%20disgyblion%20rhwng%20pump%20a%20saith%20oed%20-%20Mawrth%202009/?navmap=30,163

*Llythrennedd a'r Cyfnod Sylfaen: Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant pump i chwech oed arwaith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd* (2011)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/228937.8/Lythrennedd%20a'r%20Cyfnod%20Sylfaen%20-%20Medi%202011/?navmap=30,163

*Llythrennedd yng nghyfnod allweddol 3: Adroddiad interim* (2015)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/343461.3/Llythrennedd%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203:%20Adroddiad%20interim%20-%20Ionawr%202015/?navmap=30,163

*Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog* (2014)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/338274.3/Dilyniant%20ieithyddol%20a%20safonau'r%20Gymraeg%20mewn%20deg%20ysgol%20ddwyieithog%20-%20Tachwedd%202014/?navmap=30,163